## Cael Cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion

**Beth yw'r Gwasanaeth Gofal Cwsmer?**
Dyma'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Nam ar y Synhwyrau, Anableddau Dysgu a Therapi Galwedigaethol sy'n cael eu cynnig gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy. Nid yw'r Tîm yn cymryd atgyfeiriadau Iechyd Meddwl Oedolion, Gwasanaethau Plant na Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol. Gallwch gael y gwasanaethau hyn yn y ffyrdd canlynol:

**Iechyd Meddwl** – siaradwch gyda'ch Meddyg Teulu am eich problemau a dylent fedru eich cyfeirio at y Tîm Iechyd Meddwl perthnasol os ydynt yn credu eich bod yn gymwys i gael gwasanaeth.

**Gwasanaethau Plant** – Ffoniwch yr Adran Plant a Theuluoedd ar 01492 575111 a gofynnwch am y Swyddog ar Ddyletswydd

**Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol** – siaradwch â'ch Meddyg Teulu am eich problemau a dylent fedru eich cyfeirio at y Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol a rhoi unrhyw gyngor ac arweiniad pellach i chi.

Bydd pob ymholiad yn cael eu prosesu gan y Tîm Gofal Cwsmer. Mae hwn yn dîm Sirol o staff profiadol fydd yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol. Byddant yn gofyn cwestiynau naill ai amdanoch chi neu am yr unigolyn rydych yn eu cyfeirio er mwyn darganfod beth yw'r gwasanaeth mwyaf priodol. Nodwch fod rhaid i'r unigolyn sydd angen y gwasanaeth roi caniatâd cyn y gall staff y Gwasanaethau Cymdeithasol symud ymlaen gydag unrhyw atgyfeiriadau, oni bai ei fod yn argyfwng.

Mae'r tîm yn cynnwys pedwar Swyddog Gofal Cwsmer ac Uwch Swyddog Gofal Cwsmer.

**Beth allwn ni ei gynnig?**
Gallwn gynnig gwybodaeth a'ch cyfeirio at y gwasanaethau perthnasol. Os yw'n briodol, byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth ac yn trefnu i rywun ymweld â chi i gynnal asesiad. Dyma rai meysydd lle gallwn gynnig gwybodaeth neu eich helpu:

- Gofal cartref, fel cymorth i godi, gwisgo, paratoi prydau, golchi dillad a siopa lle bo'n briodol.

- Gwybodaeth, offer neu addasiadau i'ch helpu i fyw yn fwy diogel yn eich cartref.

- Sefydliadau Gwirfoddol

- Gofal Dydd neu gyfleoedd i gyfarfod pobl eraill a chymryd rhan mewn teithiau a gweithgareddau eraill.

- Cefnogaeth i Ofalwyr

- Llinell Ofal – system larwm 24-awr mewn argyfwng.

- Gofal tymor hir neu fyr (gofal seibiant) mewn cartref preswyl neu gartref nyrsio.

**Y Pedwar Ffactor Allweddol**

Er mwyn derbyn atgyfeiriad gennych, bydd Swyddog Gofal Cwsmer yn gofyn cwestiynau i chi am y pedwar ffactor allweddol.

- **Ymreolaeth**
  Rydym eisiau gwybod faint o reolaeth sydd gennych dros eich bywyd a'ch problemau, a faint o ddewis sydd gennych dros yr hyn sy'n digwydd i chi.

- **Iechyd a Diogelwch**
  Rydym eisiau gwybod am unrhyw broblemau iechyd meddwl neu gorfforol sydd gennych. Rydym yn edrych a ydych yn ddiogel rhag niwed, ac a yw eich problemau iechyd yn arwain at risg i chi ac i eraill.

- **Rheoli eich arferion bob dydd**
  Rydym yn edrych a ydych yn gallu gofalu amdanoch eich hun. Os oes rhywun yn dibynnu arnoch i ofalu amdanynt, byddwn yn gweld a ydych yn gallu gwneud hynny.

- **Ymglymiad**
  Rydym eisiau gwybod pa fath o fywyd sydd gennych. Byddwn yn gofyn am eich teulu a'ch ffrindiau, eich cymuned, eich gwaith ac yn y blaen. Byddwn hefyd yn gofyn a oes angen i chi ofalu am unrhyw un arall. Pwrpas hyn yw i ni weld faint o gymorth rydych ei angen i barhau i fyw yn yr un ffordd, neu i wneud y rhannau hyn o'ch bywyd yn well.

Wedi hyn, byddwn yn pasio eich achos i'r tîm priodol a byddant yn penderfynu a ydych yn gymwys i gael gwasanaeth gan ddefnyddio eu meini prawf cymhwysedd.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

Bydd rhywun o'r tîm yn cysylltu â chi ac yn trefnu i ymweld â chi. Byddant yn casglu gwybodaeth gennych i benderfynu pwy i'w helpu gyntaf a faint o gymorth y gallwn ei gynnig. Byddwn yn rhoi eich anghenion yn un o'r categorïau canlynol.

• Argyfyngus – pan fo'r peryglon mor uchel bod eich bywyd chi, neu rywun arall mewn perygl, ac nac allwch wneud y gweithgareddau sy'n angenrheidiol i gynnal bywyd ac annibyniaeth.

• Sylweddol – pan mae siawns uchel y bydd eich iechyd neu'ch ffordd o fyw yn gwaethygu.

• Cymedrol - pan mae'n debygol bod, neu y gall ragor o rannau o'ch bywyd gael eu heffeithio gan eich iechyd, neu bod perygl i'ch lles.

• Isel – pan mai dim ond un neu ddau o agweddau o'ch bywyd sydd, neu y gall gael eu heffeithio gan eich iechyd neu'r perygl i'ch lles.

Ar hyn o bryd, dim ond yr unigolion y mae eu hanghenion yn argyfyngus neu'n sylweddol y gallwn eu helpu.

**Gofalwyr**

**Beth os oes angen cymorth ar yr unigolyn rwy'n gofalu amdano**

Yn aml bydd y gofalwyr angen cymorth ychwanegol ar gyfer yr unigolyn y maent yn gofalu amdano. Gall y cymorth hwn ddod gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Gall hyn gynnwys:

• gofal yn y cartref;

• gofal dydd; neu

• gofal seibiant neu ofal tymor byr.

Fel arfer, codir tâl am y gwasanaethau hyn. Gallwch gael taflen sy'n esbonio'r gofal a pholisi codi tâl yr adran o unrhyw un o'n swyddfeydd, neu trwy ffonio 01492 574129/574122.

**Oes yna unrhyw sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu gofalwyr?**
Mae nifer o sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu gofalwyr. Rhestrir rhai o'r prif rai isod, ond gallwch chi gysylltu â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy i gael rhestr lawn.

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Ffôn: 01492 534091

Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr
Ffôn: 01492 533714

Carers Trust North Wales
Ffôn: 01492 542212

Cymdeithas Genedlaethol y Gofalwyr
Ffôn: 01492 874505

Hafal
Ffôn: 01492 860926

Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu
Ffôn: 01492 536486

Prosiect Gofalwyr Ifanc NCH
Ffôn: 01745 822228

Y Samariaid
Ffôn: 01745 354545

**Taliadau Uniongyrchol**
**Pwy sy'n talu –** Mae Conwy yn cynnig Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd i gael gwasanaeth. Mae hyn yn galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i gael rhagor o ddewis ynglŷn â sut y maent yn dymuno byw eu bywyd. Mae gan Gonwy drefniant gyda sefydliad annibynnol o'r enw Rowans Organisation i helpu i gefnogi pobl sydd eisiau defnyddio Taliadau Uniongyrchol a chyflogi eu gofalwyr ei hunain.

**Rhestr o Daflenni**

Gallwn ddarparu taflenni gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau y mae ein hadran yn eu darparu. Y rhain yw:

Gofalwyr
Gwasanaethau i Bobl Hŷn
Anableddau Corfforol a Nam ar y Synhwyrau (PDSI)
Nam ar y Synhwyrau
Cludiant
Taliadau Uniongyrchol
Therapi Galwedigaethol
Llinell Ofal
Canmoliaeth a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol

**Pwy sy'n talu?**
Rydym fel arfer yn codi tâl am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Pan fyddwn yn codi tâl arnoch, byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod yn gallu fforddio'r newidiadau hyn. Rydym yn gwneud hyn trwy ddefnyddio 'asesiad ariannol'. I gael rhagor o gyngor ynglŷn ag Asesiadau Ariannol cysylltwch â'r

**Adran Gwasanaethau Cymdeithasol**
Argyll Road
Llandudno LL30 1FA
Rhif ffôn: 01492 574129/574122

**CSSIW**
Mae gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW) restr o dai preswyl a darparwyr gofal yn y cartref sydd wedi'u cymeradwyo. Mae'r CSSIW yn arolygu'r darparwyr hyn ac yn ysgrifennu adroddiadau ynglŷn â nhw. Mae'r CSSIW hefyd yn gwrando ar unrhyw gwynion sydd gan bobl am ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo. Gallwch gysylltu â nhw i gael gwybodaeth, neu i gwyno am unrhyw ddarparwr sydd wedi'i gymeradwyo, yn:

CSSIW
Rhanbarth Gogledd Orllewin Cymru
Bloc H Adeiladau'r Llywodraeth
Dinerth Road, Bae Colwyn. LL28 4UL
Rhif ffôn: 01492 542580

Os oes gennych weithiwr cymdeithasol neu Therapydd Galwedigaethol, trafodwch eich anghenion gyda nhw a byddant yn gallu eich cyfeirio at y gwasanaethau rydych eu hangen.

**Diogelu Data**
Mae gennych hawl i weld y cofnodion personol sydd gennym amdanoch chi. Gallwch ofyn i unrhyw Swyddfa'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol am ragor o wybodaeth.

**Cydraddoldeb**
Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Conwy wedi ymrwymo i wneud yn siŵr nad ydym yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail hil ac ethnigrwydd, anabledd, oed, rhyw, tueddfryd rhywiol, iaith a hawliau dynol.

**Lle gallaf gael cymorth?**
Cysylltwch â'r Tîm Gofal Cwsmer os ydych yn meddwl eich bod angen cymorth gydag unrhyw un o'r uchod, neu os nad ydych yn siŵr pa gymorth rydych ei angen.

Y Tîm Gofal Cwsmer
Canolfan Marl
Oddi ar Broad Street
Cyffordd Llandudno
Conwy LL31 9HL

Rhif ffôn: 01492 576333
Rhif ffacs: 01492 583890
Ffôn Testun: 01492 576906
E-bost: cco@conwy.gov.uk

**Beth arall sydd angen i mi ei wybod?**
**Os yw pethau'n mynd o'i le**
Efallai na fyddwch yn fodlon gydag ein gwasanaeth weithiau. Os bydd hyn yn digwydd, gofynnwch i ni am daflen o'r enw 'Canmoliaeth a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol'. Mae'n esbonio sut y gallwch roi eich sylwadau ac yn esbonio sut y byddwn yn ymdrin â nhw. Gallwch gael copi o'r daflen hon o'r llyfrgell gyhoeddus, a swyddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, eich Gweithiwr Cymdeithasol, eich Gofalydd Cartref neu eu Rheolwr Tîm. Gallwch hefyd gysylltu â'r tîm yn uniongyrchol:

Swyddog Cwynion Statudol
Neuadd y Dref, Lloyd Street
Llandudno
LL30 2UP
Rhif ffôn: 01492 575690